

2024 Rhif (Cy.)

2024 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A44
(Ponterwyd, Ceredigion)
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)
2024

The A44 Trunk Road (Ponterwyd,
Ceredigion) (Temporary
Prohibition of Vehicles) Order
2024

Gwnaed 2 Medi 2024
Yn dod i rym 9 Medi 2024

Made 2 September 2024
Coming into force 9 September 2024

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A44, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A44 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Ponterwyd, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Medi 2024.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A44 Trunk Road (Ponterwyd, Ceredigion) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2024 and this Order comes into force on 9 September 2024.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

Interpretation

2. In this Order—

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 19:00 o’r gloch ar 9 Medi 2024 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A44 y Drenewydd i Aberystwyth.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd ym Mhonterwyd, Ceredigion sy’n ymestyn o’r arwydd terfyn cyflymder 40 mya i’r gorllewin o Westy George Borrow hyd at yr arwydd terfyn cyflymder 30 mya ym mhen dwyreiniol Ponterwyd, sef pellter o tua 1.35 cilometr.

Cymhwys

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

2 Medi 2024

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A44 Newtown to Aberystwyth trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 9 September 2024 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road at Ponterwyd, Ceredigion that extends from the 40 mph speed limit sign west of the George Borrow Hotel to the 30 mph speed limit sign at the eastern end of Ponterwyd, a distance of approximately 1.35 kilometres.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for the Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

2 September 2024

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government